**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/L/LG/0276/20

Elin Jones AC
Y Llywydd
Y Cynulliad Cenedlaethol

30 Mawrth 2020

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 para 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y daw'r Offeryn Statudol (OS) hwn i rym lai na 21 diwrnod ar ôl ei gyflwyno. Amgaeir Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn er gwybodaeth ichi.

**Cefndir**

Cafodd Panel Cynghori Cymru ar Amaethyddiaeth (y Panel) ei sefydlu o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ar 1 Ebrill 2016. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys adolygu cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill a chefnogi datblygu sgiliau a gyrfaoedd yn y sector amaethyddol.

Ar hyn o bryd, daw gweithwyr amaethyddol Cymru o dan y cyfraddau a bennwyd gan Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2019 (Gorchymyn 2019). Daeth y gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2019, y pedwerydd gorchymyn ar gyflogau a wnaed o dan Ddeddf 2014.

Cytunodd y Panel i gynyddu'r cyfraddau cyflog amaethyddol isaf (AMW) ac ymgynghori ar y cynigion yn hydref 2019. Bwriad y Panel oedd gweld y Gorchymyn newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill, yr un dyddiad ag y deuai'r cynnydd yng Nghyflog Byw Cenedlaethol y DU (NLW) a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) i rym.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, cafwyd oedi o ddeufis cyn cyhoeddi'r NMW/NLW yn sgil galw'r etholiad cyffredinol. Ailgynullodd y Panel i ystyried cyfraddau arfaethedig yr isafswm cyflog amaethyddol yng ngoleuni'r cyhoeddiad a chyflwynodd wedi hynny Orchymyn diwygiedig.

Yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf 2014, cafodd y Gorchymyn diwygiedig ei gyfeirio'n ôl i'r Panel gan Swyddogion iddo gael ystyried nifer o fân faterion drafftio technegol. Cyflwynwyd y Gorchymyn drafft terfynol gan y Panel ger bron Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Ynni, Amgylchedd a Materion Gwledig, ar 20 Mawrth 2020 i'w gymeradwyo ganddi, lawer hwyrach na'r disgwyl.

Tan y daw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020 i rym, bydd gweithwyr amaethyddol Cymru yn dal i gael eu talu o dan amodau Gorchymyn 2019. Er mwyn osgoi aflonyddwch a sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu yn unol â chyfraddau'r AMW y cytunwyd arnynt gan y Panel, cynigir na ddylai'r Gorchymyn orfod cadw at y confensiwn 21 niwrnod er mwyn iddo gael dod i rym ar 1 Ebrill.

Bernir nad oes angen cadw at y confensiwn 21 niwrnod oherwydd yr amgylchiadau na fu modd eu hosgoi a arweiniodd at arafu'r broses a bod cyfiawnhad dros hynny. Rwy'n credu hefyd bod cyfiawnhad dros gwtogi ar yr oedi ar gynyddu cyfraddau cyflogau amaethyddol am y byddai hynny'n lleihau'r amser y bydd gweithwyr amaethyddol sy'n dod o dan yr AMW yn dioddef anfantais o ran cyfraddau'u cyflogau a byddai'n ei gwneud yn haws i gyflogwyr amaethyddol gydymffurfio.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth y Siambr a'r Pwyllgor Gwasanaethau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd